Canllawiau Cred – Pennod 3

3

MYFI A WEDDÏAF

Y peth cyntaf a wnâi Iesu Grist i gynorthwyo'i ddisgyblion i ddod o hyd i'r weddi y gallent ei gweddïo 'yn ei enw' – a thrwy hynny ddod i wybod beth fyddai ef yn ei wneud fel y gallent hwythau wneud y peth hwnnw – fyddai gweddïo ar y Tad nefol ar eu rhan. Eglurodd beth a wnâi ei Dad mewn ymateb i'r weddi honno: 'Efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall':

'A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn dragwyddol, Ysbryd y gwirionedd, yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled nac yn ei adnabod ef, ond chwi a'i hadwaenoch ef, oherwydd y mae yn aros gyda chwi ac ynoch y bydd efe' (Ioan 14:16 -17).

Un o'r pethau hynod ynghylch yr hyn a ddigwyddodd yn yr oruwchystafell y noson olaf a dreuliodd Iesu Grist yng nghwmni'r disgyblion oedd ei fod wedi cyfeirio bedair gwaith at yr Ysbryd Glân yn cael ei roi, naill ai gan y Tad neu ganddo ef ei hun. Yr hyn sy'n fwy hynod fyth yw fod cymaint o wahaniaeth rhwng yr hyn a addawodd yn y ddwy addewid gyntaf o'u cymharu â'r hyn a addawodd yn y ddwy olaf, a bod cymaint yn gyffredin rhwng y ddwy addewid gyntaf a'i gilydd a rhwng y ddwy addewid olaf a'i gilydd!

Yn y ddwy addewid gyntaf, yr hyn a addawodd Iesu Grist oedd y byddai ef yn gweddïo ac y byddai'r Tad yn rhoi'r Ysbryd Glân. Dyma'r ddau gyfeiriad, o'u gosod ochr yn ochr â'i gilydd. Sylwer ar ei eiriau'n ofalus, *yn enwedig ar ei ddefnydd o'r ymadrodd 'yn fy enw i' yn yr ail ddyfyniad.* Nid Iesu Grist fyddai'n anfon yr Ysbryd Glân y tro hwn. Y Tad fyddai'n ei anfon drosto – 'yn ei enw' neu 'ar ei ran'. (Byddai awgrymu bod yr ymadrodd 'yn ei enw' yn y fan hyn yn golygu 'yn haeddiant Iesu Grist' neu 'yn enw popeth fuasai'n cynrychioli ei berson' yn gwbl amhriodol.)

'A mi a weddïaf ar y Tad, ac *efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall*, fel yr arhoso gyda chwi yn dragwyddol' (Ioan 14:16).

'Eithr y Diddanydd, yr Ysbryd Glân, *yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i,* efe a

ddysg i chwi bob peth, ac a ddwg ar gof i chwi bob peth a ddywedais i chwi' (Ioan 14:26a).

Yn wahanol iawn i hyn, dweud yn glir wnaeth Iesu Grist, yn y drydedd a'r bedwaredd addewid, mai ef ei hun, nid y Tad, fyddai'n anfon yr Ysbryd Glân bryd hynny:

'Eithr pan ddêl y Diddanydd, *yr hwn a anfonaf i chwi* oddi wrth y Tad, sef Ysbryd y gwirionedd, yr hwn sydd yn dyfod oddi wrth y Tad, efe a dystiolaetha amdanaf fi. A chwithau hefyd a dystiolaethwch, am eich bod o'r dechreuad gyda mi' (Ioan 15:26-27).

'Ond yr wyf fi yn dywedyd gwirionedd i chwi. Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith; canys onid af fi, ni ddaw'r Diddanydd atoch; eithr os mi a af, *mi a'i hanfonaf ef atoch.* A phan ddêl, efe a argyhoedda'r byd o bechod, ac o gyfiawnder, ac o farn' (Ioan 16:7-8).

Yn ail, er y byddai tebygrwydd rhwng yr hyn a wnâi'r Ysbryd Glân pan dderbynient ef o law eu Tad a'r hyn a wnâi pan fyddai'n cael ei anfon ganddo ef, fe fyddai rhai gwahaniaethau sylweddol hefyd.

(a) Yr hyn a wnâi'r Ysbryd Glân pan fyddai'n cael ei roi i'r disgyblion gan eu Tad nefol o ganlyniad i'r Arglwydd Iesu Grist yn gweddïo ar eu rhan:

'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau . . . . Eithr y Diddanydd, yr Ysbryd Glân, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi bob peth, ac a ddwg ar gof i chwi bob peth a ddywedais i chwi' (Ioan 14:20, 26).

(b) Yr hyn a wnâi'r Ysbryd Glân pan fyddai Iesu Grist yn ei dywallt ar ei bobl:

'Ond pan ddêl efe, sef Ysbryd y gwirionedd, efe a'ch tywys chwi i'r holl wirionedd; . . . a'r pethau sydd i ddyfod a fynega efe i chwi. Efe a'm gogonedda i, canys efe a gymer o'r eiddof ac a'i mynega i chwi. Yr holl bethau sydd eiddo'r Tad ydynt eiddof fi. Oherwydd hyn y dywedais mai o'r eiddof fi y cymer, ac y mynega i chwi' (Ioan 16:13-15)

Y ddwy sefyllfa

Beth a allai gyfrif am hyn? Mae'n wybyddus fod yr un gweithredoedd ar adegau yn cael eu priodoli yn yr Ysgrythur i wahanol bersonau'r Drindod. Byddai geiriau'r apostol yn Rhufeiniaid 8:9-11 yn enghraifft dda o hynny. Awgrymwn, fodd bynnag, fod y cyplau hyn o addewidion yn rhy *gyson wahanol neu debyg i'w gilydd* i ganiatáu i ni gredu hynny amdanynt.

Er bod llawer o esbonwyr cyfrifol o'r farn fod Iesu Grist yn y pedair addewid yn cyfeirio at yr hyn a ddigwyddodd ar ddydd y Pentecost, mae yna esboniad gwahanol a gwell. Yn y ddwy addewid gyntaf, cyfeirio yr oedd yn hytrach at yr hyn a ddigwyddai i'r disgyblion yn yr oruwchystafell ar y noswaith gyntaf wedi iddo atgyfodi. Y ddwy addewid olaf yn unig fyddai'n cyfeirio at yr hyn a ddigwyddai iddynt ar ddydd y Pentecost.

Y mae nifer o ystyriaethau yn ein gorfodi i ddod i'r casgliad hwn. Yr ystyriaeth bennaf yw'r ffaith fod y ddwy addewid gyntaf yn perthyn i ymdriniaeth Iesu Grist â sefyllfa dra gwahanol i'r sefyllfa y mae'r drydedd a'r bedwaredd addewid yn ei thrafod.

Yr angen am alluogi ei ddisgyblion i weddïo 'yn ei enw', a thrwy hynny gydweithio ag ef yn yr hyn y byddai ef yn ei wneud, a drafodai Iesu Grist â'i ddisgyblion pan roes y ddwy addewid gyntaf. Erbyn iddo ddod at y drydedd a'r bedwaredd cyfeiriad, y pwnc dan sylw ganddo oedd yr hyn a wnâi i alluogi ei disgyblion i wynebu byd gelyniaethus a thystiolaethu'n eofn i'w Enw.

Mae'n bwysig ein bod yn sylwi yn y fan yma fod Iesu Grist, pan oedd yn yr oruwchystafell cyn eu gadael, wedi rhoi llawer mwy o'i amser i sôn am y 'rhoi' cyntaf a'i ganlyniadau nag a wnaeth i ddisgrifio'r hyn a ddigwyddai pan fyddai – a defnyddio iaith Pedr a'r Hen Destament (Actau 2:33) – yn 'tywallt' ei Lân Ysbryd ar ei weision. O ganol y bedwaredd bennod ar ddeg hyd at ganol y bymthegfed bennod (Ioan 14:15 – Ioan 15:17) ac yn ddiweddarach o Ioan 16:12 hyd at Ioan 16:28, cawn ef yn egluro beth fyddai'r newid a ddigwyddai yn eu perthynas hwy ag ef ac â'r Tad pan fyddai'r Tad yn ateb ei weddi ar eu rhan. *Y berthynas honno fyddai perthynas arferol a rheolaidd pob un a fyddai'n credu ynddo ar ôl ei ymadawiad.*

Dim ond yn yr adnodau sy'n ymestyn o'r ddeunawfed adnod yn y bymthegfed bennod hyd at y bymthegfed adnod yn yr unfed bennod ar bymtheg ac yn y bumed adnod ar hugain a'r chweched adnod ar hugain yn y bennod honno y soniodd Iesu

Grist am ganlyniadau ei weithred yn tywallt ei Lân Ysbryd ar ei ddisgyblion. Yn wyneb y dehongliad hwn, ar wahân i unrhyw ystyriaethau eraill a all fod yn ein perswadio i'w dderbyn, mae'n taro'n beth od iawn glywed rhai yn dweud mai at yr hyn a ddigwyddodd ar ddydd y Pentecost y cyfeiriai Iesu Grist bob tro y soniai am yr Ysbryd Glân yn cael ei roi, prun ai gan y Tad neu ganddo ef ei hun.

Ystyriaethau pellach

Y mae rhai ystyriaethau eraill sy'n haeddu sylw. Hyd y gwelwn, ychydig iawn o sylw a roddir gan lawer o esbonwyr i'r cwestiwn pryd y bu i'r Arglwydd Iesu Grist weddïo'r weddi y cyfeiria ati yn Ioan 14:16 – 'A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall.' O gofio'r hyn oedd ar fin digwydd y noswaith honno, heb sôn am yr hyn a ddigwyddai iddo yn ystod y deuddydd canlynol, nid yw'n beth mor anfoesgar ag y gallai rhai gredu ei fod i ni o leiaf ofyn pryd tybed y bu iddo weddïo drostynt a beth fu cynnwys y weddi honno? Os gwnawn hynny'n ofalus, darganfyddwn fod yna o leiaf dri rheswm da dros gredu mai cyfeirio yr oedd at y weddi a weddïodd yn eu gwydd y noswaith honno – y weddi a gofnodir gan Ioan ym mhennod 17 o'i Efengyl.

Y rheswm cyntaf. Oni fyddai'n naturiol i'r Arglwydd Iesu Grist fod wedi gweddïo'r weddi honno yn eu gwydd, cyn eu gadael, yn enwedig o ystyried ei fod wedi gweddïo'n helaeth ar eu rhan cyn iddynt fynd allan (neu pan oeddent ar y ffordd i gyfeiriad Gethsemane)? Anodd meddwl am unrhyw reswm a allai fod ganddo dros wneud hynny yn y dirgel. Yn wir, a barnu wrth ei eiriau yn ystod y weddi honno, yr oedd yn awyddus iddynt gael eu calonogi o'i glywed yn gweddïo fel y gwnaeth. 'Ac yr awron yr wyf yn dyfod atat, a'r pethau hyn yr wyf yn eu llefaru yn y byd, fel y caffont fy llawenydd i yn gyflawn ynddynt eu hunain' (Ioan 17:13).

Ond, medd rhywun, does dim sôn amdano'n gofyn am yr Ysbryd Glân yn y weddi a gofnodir yn Ioan 17. Atebwn ninnau, nac oes, a hynny am reswm da a digonol. 'Wnaeth Iesu Grist ddim addo y byddai'n gweddïo am yr Ysbryd Glân. Dweud a wnaeth y byddai'n gweddïo ar ei Dad nefol ar eu rhan ac mai ymateb y Tad i'w weddi fyddai rhoi'r Ysbryd Glân iddynt: 'A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn dragwyddol, Ysbryd y gwirionedd' (Ioan 14:16-17).

Yr ail reswm. Os ystyriwn y weddi a welir yn Ioan 17 yn ofalus, canfyddwn fod

ei deisyfiadau'n cyfateb yn rhyfeddol i'r hyn a eglurodd Iesu Grist i'w ddisgyblion fyddai'n digwydd iddynt o ganlyniad iddo weddïo ar eu rhan ac i'r Tad roi'r Ysbryd Glân iddynt. Yn ddiamheuol, yr hyn a oedd bennaf ar ei feddwl pan weddïodd y weddi honno oedd nid galluogi ei ddisgyblion i wynebu erledigaeth a chasineb y byd ond sicrhau y byddai perthynas y disgyblion ag ef wedi ei ymadawiad yn debyg i'r hyn a fu ei berthynas ef â'i Dad yn nyddiau ei gnawd. Y pwnc a gafodd y flaenoriaeth ar bob pwnc arall yn eu hymgom ag ef y noson honno oedd pennaf byrdwn ei weddi hefyd. Daw hyn yn gliriach pan awn trwy'r weddi (gweler pennod 11, 'Un ynom ni', a phennod 12, 'Uchafbwynt y weddi').

Y trydydd rheswm. Yr hyn sy'n taro rhywun â syndod yw fod yna gyfatebiaeth lwyr rhwng yr hyn a ddywedodd Iesu Grist fyddai'n digwydd i'w ddisgyblion fel canlyniad iddo weddïo drostynt (Ioan 14:16-27), nid yn unig â'r weddi a offrymodd drostynt (Ioan 17) ond â'r hyn a ddywedodd Iesu Grist cyn ac wedi iddo orchymyn i'w ddisgyblion dderbyn rhodd yr Ysbryd Glân gan eu Tad nefol yn yr oruwchystafell wedi iddo atgyfodi: 'Tangnefedd i chwi. Megis y danfonodd y Tad fi, yr wyf finnau yn eich danfon chwi . . . Pwy bynnag y maddeuoch eu pechodau, maddeuir iddynt; a'r eiddo pwy bynnag a atalioch, hwy a ataliwyd' (Ioan 20:21-22). Cawn gyfle i edrych yn ofalus ar y geiriau hyn hefyd a'u gwerthfawrogi pan gyrhaeddwn bennod 13 ('Y Diddanydd arall').

Un yw'r rhodd

Mae'n amlwg fod y disgyblion wedi deall hyn. Pan ddywedodd Iesu Grist wrthynt ychydig cyn ei esgyniad i'r nefoedd eu bod i aros yn Jerwsalem i ddisgwyl am addewid y Tad, 'Yr hwn a glywsoch gennyf fi. Oblegid Ioan yn ddiau a fedyddiodd â dwfr, ond chwi a fedyddir â'r Ysbryd Glân cyn nemor o dyddiau' (Actau 1:4-5), ni ddywedodd yr un ohonynt eu bod wedi ei dderbyn eisoes yn yr oruwchystafell ac nad oedd angen ei dderbyn ymhellach. Yr oeddent wedi deall mai Person oedd y rhodd ac mai'r un Person a dderbyniasant yn yr oruwchystafell fyddai'n cael ei dywallt arnynt ymhellach. O'i dderbyn unwaith, gellid ei dderbyn i raddau helaethach.

Mae'n bwysig eithriadol ein bod ninnau'n sylweddoli mai person yw'r Ysbryd Glân ac mai am yr un person hwnnw yn cael ei roi ac yna'n cael ei roi yn helaethach yr oedd Iesu Grist yn sôn. Yn un peth, bydd hyn o gymorth inni ddeall yr hyn a gyhoeddodd Pedr wrth y rhai a oedd eto i edifarhau a chredu yn Iesu Grist, ar ddiwedd ei bregeth fawr ar ddydd y Pentecost: 'Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn

enw Iesu Grist er maddeuant pechodau; a *chwi a dderbyniwch rodd yr Ysbryd Glân.* Canys i chwi y mae'r addewid, ac i'ch plant, ac i bawb ymhell, cynifer ag a alwo'r Arglwydd ein Duw ni ato.' (Actau 2:38). Yng ngoleuni dysgeidiaeth Iesu Grist yn yr oruwchystafell, gwyddai Pedr y byddai'n rhodd y byddai arni ddwy wedd – y derbyniad cyntaf a fyddai'n rhodd barhaol, a'r llenwi pellach a ddigwyddai iddynt o bryd i'w gilydd, fel y gwelai Iesu Grist yn dda ei ganiatáu. Ymataliodd rhag dweud rhagor ar y pryd. Gwyddai y byddai'r rhai a fyddai'n ymateb yn gadarnhaol i'w wahoddiad yn dod i brofi hyn drostynt eu hunain yn fuan iawn.

Yr un peth yn union a ddigwyddodd pan oedd yn sefyll o flaen y Cyngor yn Jerwsalem. 'A nyni ydym ei dystion ef o'r pethau hyn, a'r Ysbryd Glân hefyd, yr hwn a roddes Duw i'r rhai sydd yn ufuddhau iddo ef' (Actau 5:32). Unwaith eto, yng ngoleuni'r hyn a esboniodd Iesu Grist iddynt y noson olaf y bu yn eu cwmni (a'r hyn a ddigwyddasai bellach yn eu profiad hwy eu hunain), gallasai fod wedi ymhelaethu ac egluro bod yna ddwy wedd ar y profiad o dderbyn yr Ysbryd Glân, ei dderbyn wrth gredu yn Iesu Grist a chael eu llenwi ag ef ymhellach. Gwyddai na fyddai hynny o ddim diddordeb i aelodau'r Cyngor, ac ymataliodd. Bodlonodd ar gyfeirio at yr un rhodd fawr.

Rhodd felly yw 'rhodd yr Ysbryd Glân' i bawb sy'n credu yn Iesu Grist. Yn wir, mae'n ddiddorol sylwi pa mor aml y cyfeiria'r apostolion at Dduw yn 'rhoi' yr Ysbryd Glân i'w bobl: 'A nyni ydym ei dystion ef o'r pethau hyn, a'r Ysbryd Glân hefyd, *yr hwn a roddes Duw* i'r rhai sydd yn ufuddhau iddo ef' (Actau 5:32); 'A gobaith ni chywilyddia, am fod cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau ni trwy'r Ysbryd Glân *yr hwn a roddwyd i ni'* (Rhufeiniaid 5:5); 'Yr hwn hefyd a'n seliodd *ac a roes* ernes yr Ysbryd yn ein calonnau . . .' (2 Corinthiaid 1:22); 'A'r hwn a'n paratôdd ni i hyn yma yw Duw, yr hwn hefyd *a roddodd* i ni ernes yr Ysbryd' (2 Corinthiaid 5:5); 'Ac oherwydd eich bod yn feibion, *yr anfonodd Duw* Ysbryd ei Fab i'ch calonnau chwi, yn llefain "Abba, Dad" ' (Galatiaid 4:6). Y rhyfeddod yw fod y Duw mawr wedi ei gwneud yn bosibl i bechaduriaid dderbyn yr Ysbryd Glân i breswylio yn eu calonnau – neu, a defnyddio ymadrodd Iesu Grist, 'fel yr arhoso gyda chwi yn dragwyddol' – a'r un pryd ei fod yn addawedig y cânt eu bedyddio neu eu llenwi â'r un Ysbryd Glân, a hynny'n bennaf i'w galluogi i dystiolaethu i'w enw yn wyneb yr erledigaeth ffyrnicaf.

'Oherwydd trwy un Ysbryd y bedyddiwyd ni oll yn un corff, pa un bynnag ai Iddewon ai Groegwyr, ai caethion ai rhyddion, a ni a ddiodwyd oll i un Ysbryd' meddai'r apostol (1 Corinthiaid 12:13). Braint y Cristion yw ei fod yn cael 'yfed' ohono pan ddaw i

gredu yn Iesu Grist ac yfed ohono ymhellach droeon pan gaiff ei lenwi â'r Ysbryd Glân.

Ymddygiad yr Apostolion

Yn y goleuni hwn hefyd, gallwn werthfawrogi'n well y gwahaniaeth a oedd rhwng yr hyn a roddwyd i Pedr i'w gyhoeddi ar ddydd y Pentecost (a gerbron y Cyngor) a'r cwestiwn a oedd bennaf ar feddwl yr apostolion pan aethant yn ddiweddarach i ymweld â diadelloedd o gredinwyr. Eu gofal mawr hwy, yn ddieithriad, oedd a fu i'r credinwyr hynny dderbyn yr Ysbryd Glân ymhellach, a hwythau wedi credu yn Iesu Grist? *Gwyddent y buasent wedi ei dderbyn wrth gredu ynddo,* 'Os oes neb heb Ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnnw yn eiddo ef' meddai'r un apostol (Rhufeiniaid 8:9b). Meddai drachefn wrth y Corinthiaid, 'Oni wyddoch chwi mai teml Dduw ydych, a bod Ysbryd Duw yn trigo ynoch? . . . Oni wyddoch chwi fod eich corff yn deml i'r Ysbryd Glân sydd ynoch, yr hwn yr ydych yn ei gael gan Dduw' (1 Corinthiaid 3:16; 6:19). Onid hynny oedd yr union neges a gyhoeddodd Pedr ar ddydd y Pentecost? 'Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn enw Iesu Grist er maddeuant pechodau; a chwi a dderbyniwch rodd yr Ysbryd Glân.' Amhosibl bod yn Gristion heb fod wedi derbyn yr Ysbryd Glân. Y newydd da pellach oedd y gallent, o'i dderbyn wrth gredu, ei dderbyn i raddau helaethach o lawer. A oedd hynny wedi digwydd iddynt?

Dyma gyfrif Luc o'r hyn a ddigwyddodd yn Samaria wedi i Philip fod yn cenhadu yno ac i nifer gredu yn Iesu Grist a chael eu bedyddio:

'A phan glywodd yr apostolion yn Jerwsalem, dderbyn o Samaria air Duw, hwy a anfonasant atynt Pedr ac Ioan, y rhai wedi eu dyfod i waered, a weddïasant drostynt ar iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân. (Canys *eto nid oedd efe wedi syrthio* ar neb ohonynt, ond yr oeddynt yn unig wedi eu bedyddio yn enw yr Arglwydd Iesu.) Yna hwy a ddodasant eu dwylo arnynt, a hwy a dderbyniasant yr Ysbryd Glân' (Actau 8:14-17).

Digwyddodd yr un peth yn Effesus wedi i'r apostol Paul ddod o hyd i 'rai disgyblion' yno. Ei gwestiwn cyntaf oedd, 'A dderbyniasoch chwi yr Ysbryd Glân pan gredasoch?' neu, yn well ac yn gywirach, 'A dderbyniasoch chwi yr Ysbryd Glân a chwithau wedi credu?' (Yn wir, ni ellid cyfleu ergyd ei gwestiwn yn well nag a wneir yn y cyfieithiad a welir yn yr hen Feibl Cymraeg: 'A dderbyniasoch chwi yr Ysbryd Glân *er pan gredasoch?*' (Actau 19:2)).

Pe byddai'n cyfeirio at eu hailenedigaeth fe fyddai hynny'n golygu ei fod yn credu y gallent fod yn gredinwyr heb fod wedi derbyn yr Ysbryd Glân. Fe fyddai hynny'n gwrth-ddweud yr hyn a gyhoeddodd Pedr ar ddydd y Pentecost – ond iddynt edifarhau a chredu yn Iesu Grist y derbynient yr Ysbryd Glân. Nid hynny, yn sicr, oedd ym meddwl Paul. Gwyddai y gallai credinwyr, ar adegau o fendith, dderbyn tywalltiad o'r Ysbryd Glân *yr un pryd neu'n agos iawn at yr adeg pan gawsant eu haileni.* Yr hyn y carai wybod oedd, a oedd hynny wedi digwydd yn eu hanes hwy. Pan ddeallodd nad oeddynt yn gredinwyr, eglurodd yr efengyl iddynt a chawsant eu bedyddio fel credinwyr. Byddent wedi derbyn yr Ysbryd Glân bryd hynny. Er y gwyddai'r Apostol hynny cystal â neb, yr hyn sy'n bwysig sylwi arno yw ei fod yn amharod i'w gadael heb roi ei ddwylo arnynt a bod yn gyfrwng iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân yn helaethach: 'Ac wedi i Paul ddodi ei ddwylaw arnynt, yr Ysbryd Glân *a ddaeth arnynt*, a hwy a draethasant â thafodau ac a broffwydasant' (Actau 19:6).

Ymddengys ar yr olwg gyntaf fod llawer o'r rhai a ymgasglodd i dy Cornelius, pan gyrhaeddodd Pedr i'w cyfarch, wedi profi'r Ysbryd Glân yn 'syrthio' neu, os mynner, yn cael ei 'dywallt' arnynt fel yr oedd ei eiriau yn dirwyn i ben (gweler Actau 10:44-45*) heb i ddim gael ei ddweud a fyddai'n arwyddo eu bod wedi credu yn Iesu Grist yn flaenorol.* O graffu'n ofalus, fodd bynnag, canfyddwn fod rhywbeth mawr wedi digwydd yn eu bywyd eisoes.

Meddai Luc am Cornelius, 'gwr defosiynol ac yn ofni Duw, ynghyd â'i holl dy, ac yn gwneuthur llawer o elusennau i'r bobl ac yn gweddïo Duw yn wastadol' (Actau 10:2). Mae'n amlwg oddi wrth eiriau Pedr eu bod un ac oll yn gyfarwydd â neges yr efengyl: 'Y gair yr hwn a anfonodd efe i blant Israel, gan bregethu tangnefedd trwy Iesu Grist – efe yw Arglwydd pawb oll – chwychwi a wyddoch' (Actau 10:36). Mae'n amlwg hefyd oddi wrth y gyffes a wnaeth Pedr, wedi gwrando ar dystiolaeth Cornelius, ei fod yn ymwybodol fod Duw ar waith yn eu bywyd: 'Yr wyf yn deall mewn gwirionedd, nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb. Ond ym mhob cenedl, y neb sydd yn ei ofni ef ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymeradwy ganddo ef' (Actau 10:34-35). Onid hyn oedd arwyddocâd y weledigaeth a gafodd Pedr? 'Y pethau a lanhaodd Duw, na alw di yn gyffredin' (Actau 10:15).

Cofleidiodd yr holl gwmni y wybodaeth a roes Pedr iddynt am Iesu Grist. Yn fwy na hynny, cyn iddo gael cyfle i holi dim yn eu cylch, nac i'r un ohonynt hwythau

allu dwyn tystiolaeth o unrhyw fath, fel prawf digamsyniol fod hynny wedi bod yn foddion iddynt gredu yn Iesu Grist, disgynnodd yr Ysbryd Glân arnynt 'megis arnynt hwythau yn y dechreuad'. Nid hynny fyddai'r 'norm' – fel y gwyddai'r apostolion o brofiad – ond roedd hon yn sefyllfa bwysig dros ben. *Nid ar chwarae bach y deuai'r Iddewon i gredu y byddai'r cenhedloedd yn cael etifeddu yr un breintiau â hwy*. Wedi cymryd camau neilltuol i argyhoeddi Pedr fod hynny'n wir, doedd dim i rwystro'r Brenin Mawr rhag cymryd camau a oedd yr un mor anarferol i'r diben o argyhoeddi'r 'rhai a oedd o'r enwaediad' a oedd yn gwmni iddo, fod hynny'n ffaith.

Yn wir, mae lle i gredu, am resymau sy'n wybyddus i Dduw yn unig, fod hynny wedi digwydd i lawer mewn cyfnodau o fendith fawr. Dod i gredu a derbyn yr Ysbryd Glân *fel sy'n addawedig i bawb sy'n edifarhau a chredu yn Iesu Grist* fyddai'n digwydd i'r mwyafrif yn gyntaf. Yna'i dderbyn ymhellach a pharhau i'w dderbyn ymhellach dro a thrachefn wedi hynny hyd yn oed. Fe fyddai modd yn achos rhai, fodd bynnag, i'r Ysbryd Glân nid yn unig gael ei roi ond cael ei 'dywallt' yr un pryd â dod i gredu yn Iesu Grist.

Yn achos Paul, wedi iddo ildio ei fywyd i'r Arglwydd Iesu Grist ar y ffordd i Ddamascus, bu'n rhaid iddo aros am dridiau cyn iddo gael ei lenwi â'r Ysbryd Glân (gweler Actau 9:17-18). Doedd hynny'n poeni dim ar yr apostolion. Gwyddent y byddai pob un a brofai'r tywalltiadau, ar ôl dod i gredu yn Iesu Grist, wedi ei aileni eisoes ac o'r herwydd wedi derbyn yr Ysbryd Glân bryd hynny. Y peth mawr iddynt hwy oedd, a oeddent wedi ei dderbyn yn helaethach oddi ar pan gredasant. Digwyddodd hynny'n hanes yr apostol rai dyddiau'n ddiweddarach.

Y ddau 'roi'

Yng ngoleuni'r pedwar cyfeiriad a wnaeth Iesu Grist at ddyfodiad yr Ysbryd Glân, gwelwn fod yna ddau 'roi' a'i bod yn bwysig dros ben ein bod yn gallu gwahaniaethu rhyngddynt. Dywedwn hynny am ddau reswm.

Yn gyntaf, fe fydd rhai credinwyr wedi derbyn yr Ysbryd Glân wrth gredu ond heb wybod llawer am y derbyn pellach. Bydd yn bwysig gallu eu hargyhoeddi hwy fod yna 'roi' felly yn addawedig a beth yw natur a diben y 'rhoi' hwnnw. Fel y gwelsom, hyn oedd diddordeb pennaf yr apostolion pan oeddent yn ymweld â chredinwyr neu rai a broffesai eu bod yn gredinwyr. Fel y gellid disgwyl, hyn hefyd yw'r gofal sy'n

brigo i'r wyneb yn eu hepistolau. Er enghraifft, wrth ysgrifennu at yr Effesiaid, wedi cydnabod eu bod wedi eu selio trwy dderbyn yr Ysbryd Glân pan fu iddynt gredu yn Iesu Grist (Effesiaid 1:13), dywed yr apostol, bedair adnod yn ddiweddarach, na all ymatal rhag gweddïo drostynt y byddai'r Tad yn rhoi iddynt ymhellach 'Ysbryd doethineb a datguddiad' (adnod 17). Cyn diwedd ei lythyr mae'n eu hannog â'r geiriau 'Llanwer chwi â'r Ysbryd Glân' (5:8). Yn ei lythyr at y Galatiaid (3:2), wedi cyfeirio at y ffaith eu bod eisoes wedi derbyn yr Ysbryd Glân, cyfeiria, dair adnod yn ddiweddarach, at yr hwn sy'n 'paratoi' neu'n 'trefnu' cyflenwadau pellach o'r Ysbryd Glân ar eu cyfer.

Yr ail reswm paham ei bod yn bwysig ein bod yn gallu gwahaniaethu rhwng y ddwy ffordd y gall disgyblion Iesu Grist dderbyn yr Ysbryd Glân yw hyn. Fe fydd llawer o'r rhai a brofodd rin y tywalltiadau pellach yn agored i'r demtasiwn o ddibrisio gweinidogaeth arferol a pharhaol yr Ysbryd Glân yng nghalonnau'r saint. Mae hynny'n gamgymeriad mawr. Pa mor gynorthwyol bynnag fu'r tywalltiadau pellach yn eu profiad hwy, bydd y ddysgeidiaeth ynghylch gweinidogaeth arferol a chyson yr Ysbryd Glân 'oddi ar pan gredasant' yn dal i fod yn berthnasol i'w bywydau hwythau *o ddydd i ddydd*.

Yr hyn sy'n peri bod geiriau Iesu Grist yn yr oruwchystafell, cyn eu gadael, mor hynod werthfawr yw eu bod yn disgrifio'r ddau fath o 'roi' *o fewn cwmpas yr un ymdriniaeth*. Ein gwaith ni yw eu cadw ar wahân yn ein meddwl, tra byddwn yr un pryd yn cael achos i ryfeddu'n ddyddiol at y ffordd y mae'r naill wedd yn gymar i'r llall. Un o'r pethau a'n cynorthwya fwyaf i wneud hynny fydd sylweddoli bod Iesu Grist wedi trafod y wedd arferol i weinidogaeth yr Ysbryd Glân rhwng y ddau gyfeiriad cyntaf at ddyfodiad yr Ysbryd Glân yn yr oruwchystafell, a'r wedd fwy achlysurol rhwng y ddau gyfeiriad olaf.

Y rhwystr pennaf

Cyn troi at ddisgrifiad Iesu Grist o'r hyn a ddigwyddai ym mhrofiad ei ddisgyblion o ganlyniad y ffaith y bu iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân o law eu Tad nefol, y mae'n deg inni yma gyfeirio at y rheswm pennaf, o bosibl, pam y mae llawer o esbonwyr cyfrifol a da yn methu derbyn hyn. Sylwadau Ioan ar eiriau'r Arglwydd Iesu Grist wedi iddo, ar ddiwedd Gwyl y Pebyll yn Jerwsalem, wahodd pawb a oedd yn sychedig i ddyfod ato ac yfed yw'r rheswm hwnnw. Dyma eiriau Ioan:

‘Ac ar y dydd diwethaf, y dydd mawr o’r wyl, y safodd yr Iesu ac a lefodd, gan ddywedyd, “Os oes ar neb syched, deued ataf fi ac yfed. Yr hwn sydd yn credu ynof fi, megis y dywedodd yr Ysgrythur, afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant allan o’i groth ef.” *A hyn a ddywedodd efe am yr Ysbryd, yr hwn a gâi’r rhai a gredent ynddo ef ei dderbyn; canys eto nid oedd yr Ysbryd Glân wedi ei roddi, oherwydd ni ogoneddasid yr Iesu eto’* (Ioan 7:37-39).

Ym marn yr esbonwyr hyn, cafodd Iesu Grist ei ogoneddu yn dilyn ei Esgyniad a ddigwyddodd ddeugain niwrnod wedi’r atgyfodiad. Amhosibl, felly, meddent, fyddai i’r hyn a ddigwyddodd yn yr oruwchystafell fod yn ddim amgen na gweithred symbolaidd a fyddai’n paratoi’r disgyblion ar gyfer yr hyn na allai ddigwydd hyd nes y byddai’r Arglwydd Iesu Grist wedi ei ogoneddu. Ond camgymeriad yw ymresymu fel hyn, oherwydd fe wawriodd cyfnod ‘gogoneddu’ Iesu Grist nid gyda’r Esgyniad ond pan gododd yn fuddugoliaethus o’r bedd gyda thoriad gwawr bore’r Atgyfodiad! Cyflawni agweddau pellach ar y gogoneddu hwnnw a ddigwyddodd pan esgynnodd i’r nefoedd a chael ei osod i eistedd ar orseddfainc ei frenhiniaeth ar ddeheulaw’r Tad.

I’n cynorthwyo i werthfawrogi hyn yn well, y llwybr diogelaf i’w ddilyn yw sylwi’n ofalus ar y cyfeiriadau lluosog a wnaeth Iesu Grist ei hun at y ‘gogoneddu’ oedd yn ei aros.

Yn gyntaf, gwyddai fod y gogoneddu yn agos. Mynegodd hynny’n glir pan ymadawodd Jwdas â’r cwmni gyda’r bwriad o’i fradychu:

‘Yna wedi iddo fyned allan, yr Iesu a ddywedodd, “Yn awr y gogoneddwyd Mab y dyn, a Duw a ogoneddwyd ynddo ef. Os gogoneddwyd Duw ynddo ef, Duw hefyd a’i gogonedda ef ynddo ei hun, ac efe a’i gogonedda ef yn ebrwydd” ’ (13:31-32).

Sylwer ar y ddau air ‘yn awr’ ac ‘yn ebrwydd’. Mae’r ddau ymadrodd yn y Groeg yn cyfeirio at rywbeth sy’n digwydd ‘ar ei union, yn syth a heb oedi’. Prin ei fod yn cyfeirio at yr hyn a ddigwyddai ymhen deugain niwrnod.

Yn ail, gwyddai beth fyddai’n gynwysedig yn y gogoneddu hwnnw. Fe’i mynegodd ar lafar wrth weddïo ar ei Dad nefol y noswaith honno yng nghlyw ei ddisgyblion:

‘Y Tad, daeth yr awr. Gogonedda dy Fab, fel y gogoneddo dy Fab dithau; *megis y rhoddaist iddo awdurdod ar bob cnawd, fel am y cwbl a roddaist iddo, y*

rhoddai efe iddynt fywyd tragwyddol' (Ioan 17:1b-2).

Yn drydydd, cyn iddo esgyn i'r nefoedd, yr oedd eisoes yn ymddwyn fel un a oedd yn feddiannol ar y gogoniant a'r awdurdod a oedd yn addawedig iddo. Roedd y geiriau a lefarodd wrth y disgyblion – cyn ei Esgyniad – wrth roi'r comisiwn iddynt i fynd i'r holl fyd a phregethu'r efengyl yn enghraifft o hyn:

'Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, gan ddysgu iddynt gadw pob peth a orchmynnais i chwi. Ac wele, yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd' (Mathew 28:18-20).

Yn bedwerydd, os oedd ei ymddygiad, wrth roi'r comisiwn mawr i'w ddisgyblion, yn profi ei fod yn ymddwyn fel un a oedd eisoes yn feddiannol ar y 'gogoniant a roddai'r Tad iddo', yn sicr yr oedd ei ymddygiad mewn perthynas â'r disgyblion wrth iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân yn yr oruwchystafell wedi'r Atgyfodiad yn profi hynny. Yn y cyswllt hwn, mae'n eithriadol bwysig ein bod yn cofio'r hyn a ddywedodd Iesu Grist a ddigwyddai pan fyddai'r Tad yn rhoi'r Ysbryd Glân iddynt.

'Eithr y Diddanydd, yr Ysbryd Glân, *yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i*, efe a ddysg i chwi bob peth, ac a ddwg ar gof i chwi bob peth a ddywedais i chwi' (Ioan 14:26).

I feddwl y byddai'r hwn a ddywedodd ei fod wedi dod yn un swydd i'n daear i wneud ewyllys ei Dad – a dim ond hynny – yn meddu ar yr awdurdod i ofyn i'r Tad wneud unrhyw beth a fyddai'n unol â'i ewyllys ef! Ni ellir esbonio peth fel hyn ond fel prawf y gwyddai Iesu Grist ymlaen llaw mai yn ei gorff atgyfodedig yr ymddangosai yn yr oruwchystafell noswaith gyntaf yr atgyfodiad a pheri i'w ddisgyblion dderbyn yr Ysbryd Glân o law eu Tad nefol. Gwyddai y byddai'r gofal am weinidogaeth yr Ysbryd Glân yn cael ei ymddiried iddo ef unwaith y byddai wedi ei ogoneddu. Gwawriodd y diwrnod hwnnw.

Yn fwy sylfaenol fyth, gwyddai Iesu Grist mai un o brif ddibenion ei ddyfodiad i'r byd oedd portreadu yn ei fywyd ei hun y bywyd a fwriadodd Duw i ddyn ei fyw yn ei berthynas ag ef. 'Y bywyd a amlygwyd, a ni a welsom ac ydym yn tystiolaethu ac yn mynegi i chwi'r bywyd tragwyddol, yr hwn oedd gyda'r Tad, ac a amlygwyd i ni' meddai Ioan yn ei epistol cyntaf (I Ioan 1:2). Nid ei bortreadu yn unig a ddisgwyliai'r

Tad ganddo chwaith. Y cytundeb a wnaed rhyngddo a'i Dad yn nhragwyddoldeb oedd y byddai, trwy farw dros eu pechodau a byw yn ôl delfrydau Duw ar eu rhan, yn ei gwneud yn bosibl i briodoli'r cyfiawnder hwnnw'n rhad i'r rhai a roes y Tad iddo a thrwy hynny ei gwneud hi'n bosibl iddynt hwythau etifeddu bywyd tragwyddol a byw yn debyg i'w Harglwydd.

Gwyddai Iesu Grist mai trwy breswyliad mewnol yr Ysbryd Glân y deuai hynny'n ffaith ym mywydau'r cyfryw. Dyna paham y gweddïodd ar ei Dad drostynt gan egluro mai ymateb y Tad i'w weddi fyddai rhoi'r Ysbryd Glân iddynt. Dyna paham yr anfonwyd yr Ysbryd Glân wedi i Iesu Grist atgyfodi ond cyn iddo esgyn i'r nefoedd. Yr oedd yn hanfodol bwysig ei fod ef yn bresennol i'w sicrhau mai'r fendith a dderbyniasent oedd y fendith a addawodd iddynt yn yr oruwchystafell. 'Derbyniwch yr Ysbryd Glân', meddai. Yn dod o'i enau ef, roedd hynny'n ddigon. Ar gyfer yr oesoedd a ddilynai, fe fyddai iddo fod wedi bod yn bresennol yn gymorth iddynt hwythau wahaniaethu'n glir rhwng yr Ysbryd Glân yn dod i aros yn eu calonnau a'r gwaddol pellach o'r Ysbryd Glân a dderbynient o bryd i'w gilydd. (Byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwn ym mhennod 10, 'Y Ddau ddiwrnod', a phennod 12, 'Uchafbwynt y weddi'.)

Wrth ddweud hyn yr ydym yn ymwybodol fod yna leiafrif o esbonwyr hefyd sydd o'r farn fod Iesu Grist wedi dychwelyd at ei Dad a chael ei anrhydeddu'n llawn ddiwrnod ei Atgyfodiad. Mae'n ddehongliad a haedda ystyriaeth. Fe'i trafodwn yn fyr yn Atodiad 3 ar ddiwedd y gyfrol.

Troedio'n ofalus

Ni phetruswn rhag dweud bod nifer o ganlyniadau tra anffodus yn dilyn credu mai at yr hyn a ddigwyddodd ar ddydd y Pentecost y cyfeiriai Iesu Grist yn y mwyafrif os nad y cyfan o'r cyfeiriadau at yr Ysbryd Glân yn cael ei roi a roes i'w ddisgyblion cyn eu gadael. Rhag i ni, fodd bynnag, gael ein denu'n ormodol oddi wrth ein prif ddiddordeb yn y gyfrol hon, sef lle gweddi yn y bywyd Cristnogol, fe'u rhestrwn mewn atodiad ac fe awn yn ein blaen i ystyried disgrifiad Iesu Grist o'r cyfnewidiad mawr a ddigwyddai ym mywyd y disgyblion o ganlyniad y ffaith iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân o law eu Tad nefol mewn ymateb i'r weddi a weddïodd ef drostynt.

Byddai'n drueni ped anghofiem mai rhoi gwybodaeth i'w ddisgyblion sut y caent brofi yr hyn a addawodd y digwyddai yn eu bywydau wedi ei ymadawiad oedd bennaf

ar feddwl Iesu Grist yn yr oruwchystafell: ‘Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, yr hwn sydd yn credu ynof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a’u gwna, a mwy na’r rhai hyn a wna efe; oblegid yr wyf fi yn myned at fy Nhad. A pha beth bynnag a ofynnoch yn fy enw i, hynny a wnaf, fel y gogonedder y Tad yn y Mab. Os gofynnwch ddim yn fy enw i, mi a’i gwnaf’ (Ioan 14:12-14).

Gan geisio cadw hyn mewn cof, awn rhagom ym mhenodau 4-6, sy’n dilyn, i ystyried, gymal wrth gymal, yr hyn a addawodd Iesu Grist y byddai’n digwydd i’w ddisgyblion pan fyddai Duw yn ateb ei weddi. Cawn weld wedyn, ym mhenodau 7-10, fel y bydd hyn yn taflu goleuni gwerthfawr dros ben nid yn unig ar (1) ddameg y wir winwydden (ynghyd â sylwadau Iesu Grist ar y ddameg honno sy’n dilyn), ond (2) ym mhenodau 11 a 12 ar y weddi a weddïodd yn eu gwydd y noswaith honno. Yr hyn a ganfyddwn fydd eu bod yn cyfateb yn rhyfeddol i’w gilydd.

Yna, wedi gwneud hyn, ym mhennod 13 (3) cymharwn ei addewidion, y weddi a offrymodd, â’r hyn a ddigwyddodd wedi’r Atgyfodiad, ac yn arbennig â’r hyn a ddywedodd Iesu Grist bryd hynny (Ioan 20:21-23). Y canlyniad fydd y cawn brawf digamsyniol mai at yr hyn a ddigwyddodd wedi’r Atgyfodiad y cyfeiriai Iesu Grist yn y geiriau yr ym yn eu hystyried: ‘A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn dragwyddol.’ Cawn weld hefyd pa mor bwysig oedd hyn i’r disgyblion a oedd yn awyddus nid yn unig i wybod sut y gallent weddïo ‘yn ei enw’ ond hefyd sut y gallent hwy wneud yr hyn y byddai efe yn ei wneud, ac yntau’n eu gadael.